# MORRIS, JAMES (1853 - 1914), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, ac awdur

**Enw:** James Morris
**Dyddiad geni:** 1853
**Dyddiad marw:** 1914
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn 1853 yn y Goppa Fach (Pontarddulais), ond tua'r 14 oed symudodd i Lanelli, lle y dechreuodd bregethu. Wedi bod yng Ngholeg Trefeca, bu'n gweinidogaethu yn Llansawel a Rhydcymerau (1881-92), Penygraig, Rhondda (1892-1907), a Llansteffan (1907-14). Bu farw 8 Tachwedd 1914 yn 61 oed, a chladdwyd yn Nhrealaw. Ymddiddorai yn hanes ei enwad yn Sir Gaerfyrddin, a chyhoeddodd bedwar o lyfrau arno: *Cofiant Dafi Dafis, Rhydcymerau*, 1897; *Cofiant Thomas Job, Conwyl*, 1899; *Efengylwyr Seion*, 1905 (ysgrifau bywgraffyddol); a *Hanes Methodistiaeth Sir Gaerfyrddin*, 1911. Prin bod y rhain yn fanwl feirniadol, eto y maent yn ddiddorol ac yn wir ddefnyddiol.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau

*Blwyddiadur y Methodistiaid Calfinaidd*, 1916

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733329

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu